



- Manon Awst - Matthew Tucker - Sara Green - Gwilym Bowen Rhys -
Efa Lois - Alek Bednarski - Manon Steffan Ros - Rhodri ap Dyfrig -

Y STAMP

Rhifyn 2 - Haf 2017

yStamp.cymru

Eis saith mlynedd bu deddyf
Anghar at qylchgronau'n gwyf,
Tro'i miloedd yn sunnoedd bach,
Tori grantiau dy qintach,
Az yn fisol didolir
Rhyw un taith i'w roi'n y tir...

Ond daw sŵn, ac mae'n dwysau,
I gynnwys dan qylchgronau,
Dan esgidiau'n ysyydwad,
Yn tawbu'r wled, ratlo'r wlad,
Sŵn clamp o STAMP nos 2 dydd,
Cic i'r wyl, wrasio'r welydd.

Os maeu'r hen elw i ni,
Yma at lein mae'r sileni,
Felly rho, qyfaill, le rhydd
I'r welfau yn dy grefydd,
Rho dy lein i'r dalennau,
Rho stori i ni ei mwynhau,
Rho dy stamp ditaidus di
Dy hun at y dardeni.



Y STAMP

RHIFYN 2

HAF 2017



ystamp.cymru U @ystampus

Hawlfraint © 2017 Y Stamp
Argraffwyd gan Argraffwyr Cambrian

Dylunydd - Iestyn Tyne
Celf y clawr - Manon Awst

Barn yr awduron unigol a gyhoeddir yn Y Stamp, ac nid o reidrwydd rhai'r cylchgrawn a'i olygyddion.

DIOLCH

I bawb a ddaeth i lansiad y rhifyn cyntaf yn Aberystwyth - yn gyfrannwyr a chefnogwyr;
ein teuluoedd a'n ffrindiau;
I CHI, ddarllenwyr annwyl;

ac yn bennaf oll, i'r holl stampwyr disglair sy'n eich disgwyl rhwng y cloriau hyn.

CYNNWYS

Cerdd - Eurig Salisbury	2	Cyfweliad - Rhys Trimble	24
Golygyddol - Llŷr Titus	6	Celf - Efa Lois	28
Cwpledi - Manon Awst	9	Cerdd - Matthew Tucker	29
Stori Fer - Rhodri ap Dyfrig	10	Stori Fer - Ruth Richards	30
Llên Meicro - Mared Llywelyn	11	Adolygiadau	
Y Labordy - Manon Steffan Ros	12	<i>Caeth a Rhydd</i> - Peredur Lynch	32
Cerdd - Sara Green	13	<i>Y Tŵr</i> - Guto Pwll / Gwyneth Glyn	33
Nofel Graffig - Alek Bednarski	14	<i>Dadeni</i> - Ifan Morgan Jones	33
Llên Meicro - Llio Mai	20	<i>Dŵr yn yr Afon</i> - Heiddwen Tomos	34
AilBobi Jones - Gwilym Bowen Rhys	21	Adnabod yr Artist - Manon Awst.....	36
Cerddi - Mynyddog	23	Y Stampwyr	37

Y STAMP

GOLYGYDDION

Grug Muse / Miriam Elin Jones / Llŷr Titus / Iestyn Tyne



ystamp.cymru // @ystampus // facebook.com/ystampus

golygyddion.ystamp@gmail.com

👉 ARTISTIAID! 👈

Mae'r **STAMP** eich angen chi!

Rydym yn chwilio am artistiaid i arddangos eu gwaith ar gloriau'r dyfodol - cysylltwch os oes gennych ddiddordeb!

GOLYGYDDOL

LLŶR TITUS

Bobol annwyl, mae'r Stamp wedi cael cyfnod prysur. Gafo ni lansiad Stampus (os nad ffocin Stampus deud gwir), da ni wedi bod ar y weirles a'r telifision droeon, ac mae'r cyfraniadau yn llifo i fewn rif y gwllith. (Cofiwch yrru gair os oes ganddoch chi rywbeth gyda llaw, dio'm ots o fath yn byd be ydi o.) Mae'r Stamp yn y Llyfrgell Gen, mae ganddom ni ddarlleniad parchus, ac ma' 'ngwennyn i'n dod yn o lew. Ond nid lle i drafod pam fod 'leni'n flwyddyn dda o ran hel mêl ydi diban golygyddol ac nid gorffwys ar y rhwyfau ydi'i ddiben o chwaith - mae 'na waith i'w wneud o hyd.

Roedd 'na sawl peth y medrwn i fod wedi'i drafod yn y golygyddol hwn; anallu'r sefydliad i sylwi eu bod nhw'n sefydliad yn y lle cynta a pha effaith maen nhw'n ei gael, elitaeth o bob math, yr ymateb mae'n maniffesto ni wedi'i ennyn, stad y byd adolygiada, neu'r tensiwn cynyddol sydd rhwng y 'ddrama' a'r 'theatr' yng Nghymru, ond un o fy nghyd-olygyddion, Grug, a roddodd fi ar drywydd y golygyddol yma a diolch iddi hi am hynny.

Mae yna drafod mawr wedi bod yn ddiweddar mewn rhai cylchoedd ar *cultural appropriation* neu briodolli meddiannu diwylliannau. Mae o'n bwnc sy'n boethach yn America o bosib ond mae yna drafod wedi bod amdano fo'n fama mewn sawl ffurf, ond yn bwysicach i mi o ran y pwt yma, mewn cyd-destun creadigol. Rŵan, y diffiniad gwreiddiol oedd gen i yn fy mhen o feddiannu diwylliannol oedd pethau fel yr Elgin Marbles. Y deunydd y gwnaeth yr Ymerodraeth Brydeinig ei fachu a gwrthod ei roi yn ôl. (A gawn ni hefyd gofio, plis, fod yna Gymry ymysg y gweithgarwch hwnnw - fedran ni ddim golchi'n dwylo o faich yr Ymerodraeth yn gyfan gwbl.)

Wrth gwrs, mae o'n rhywbeth sy'n llawer ehangach na hynny. Un enghraifft y bu trafod arni oedd bod cyhuddiadau o feddiannu diwylliannol wedi eu gwneud yn erbyn criw a aeth ati i gynnal parti Mecsicanaidd a gwisgo sombreros a hwythau heb gysylltiad hefo'r diwylliant hwnnw. Mae hynny wrth gwrs yn golygu ei bod hi wedi cachu ar sawl ymgom, cyflwyniad dramatig a nosweithiau Undeb Cymraeg ar draws Cymru, ond dwi'n ama bod y memo hwnnw dal yn y post yn rwla.



Mae o hefyd felly yn fatar o fyrath hefo hunaniaeth pobl.

Mae rhai awduron wedi datgan nad ydyn nhw am ysgrifennu cymeriadau gydag ethnigrwydd, gogwydd rhywiol neu hunaniaeth wahanol i'r hyn ydyn nhw gan nad oes ganddyn nhw brofiad uniongyrchol o hynny. Mae rhai wedi awgrymu na ddylai neb wneud hynny tra bod eraill wedi wfftio'r fath syniad. Ond o ddilyn rhesymeg fel hyn - na ddylid ysgrifennu nemor ddim y tu draw i brofiad unigolyddol - mae sgôp rhywun i ysgrifennu yn gymharol gul. Bydda 'ngwaith i er enghraifft yn llawn cymeriadau gwrywaidd, gwyn, lled-freintiedig sy'n cadw gwenyn. Go brin y byddai cymeriad felly o fawr ddi-ddordeb i neb.

Wrth gwrs, dychmygu a mynd y tu draw i brofiad personol ydi swyddogaeth awdur mewn difri ac mae rhyddid creadigol yn rhywbeth ddylai berthyn i bawb. Cyndyn ydw i felly o weld sgrifennu o'i wneud yn iawn yn feddiannu diwylliannol. Tydi hynny ddim i ddweud nad oes yna gyfrifoldeb ynghlwm wrth sgrifennu; cyfrifoldeb i ymchwilio, i greu darlun sensitif ac i beidio â chymryd petha'n ganiataol ac i dderbyn beirniadaeth yn raslon (ddim y basa chi'n debygol o gael peth gonast yng Nghymru ond ta waeth).

Wrth darllen barn Yassmin Abdel-Magied yn enwedig dyma sylweddoli fod gen i'r ateb i rywun sydd ddim o

blaid awdur o un diwylliant yn cymryd cip dros ffens ei brofiad ei hun. Oes wir yr, ac mae o'n un reit hawdd fyd. Os am gael awduron sydd yn cadw draw rhag profiadau diarth eraill y byd, dewch i fyw ac ysgrifennu i Gymru yn Gymraeg. Does dim rhaid poeni am ddarlun afrealistig o ddiwylliant neu bobloedd eraill y pen yma i glawdd Offa gan fod awduron, at ei gilydd, yn gyfforddus yn eu rhigol ddiwylliannol ac yn ymddangosiadol heb ysfa i fentro y tu draw i honno. Tydi meddiannu diwylliant arall ddim yn broblem i awdur Cymraeg orfod poeni amdani achos ein bod ni'n boenus o obsesiynol am ein un ni'n hunain.

Llyfrau am Gymru a Chymry sydd i'w cael ganddom ni yn aml iawn a phiti mawr ydi hynny.

Sut stad sydd ar lenyddiaeth Cymru mewn difri calon os ydi nofel am brofiad dyn ym Manceinion yn cael ei gweld fel un egsotig o ran ei lleoliad? Be nawn ni lle mae 10 uchaf Gwales bob un hefo cysylltiad â Chymru? Y peth callaf i holi gyntaf fyddai 'pam?' dybiwn i.

Un drwg ydi bod realaeth â'i afael haearnaidd ar lenyddiaeth Cymru o hyd er ei fod o'n llacio. Fydda i'n lecio'i weld o fel cysgod Kate Roberts. Fe sgwennodd hi am yr hyn yr oedd hi'n wybod; sgrifennu rhag mygu am ei bywyd nad oedd yn hynod o neis, dduda ni felly. Fe lwyddodd hi i ddal cyfnod a charfan o gymdeithas ac fe oedd o'n dda, ac yn boblogaidd ac fe gamgymrodd cenedlaeth gyfan efelychu am ddysgu sgrifennu. A chymrodd cenedlaethau o ddarlennwyr ac ysgolheigion hynny am y safon y dylid gweithio tuag ato a chafodd amrywiaeth ei gymryd yn rhywbeth nad oedd cystal. Tydi realaeth ddim yn ddrwg i gyd chwaith, o bell ffordd. Y drwg ydi fod pobol yn camgymryd realaeth am adrodd pethau fel maen nhw yn union iddyn nhw heb feddwl fod modd cael nofel realaidd Gymraeg wedi ei selio yn unrhyw le.

Wrth gwrs mae hi'n fwy naturiol efallai i awdur ysgrifennu am yr hyn maen nhw'n adnabod, yr hyn sy'n eu poeni nhw neu sy'n gyfarwydd iddyn nhw. 'Ysgrifennwch yr hyn yr ydych chi'n wybod' oedd y cyngor i mi pan oeddwn i'n ddim o beth. Ro'n i'n arfer meddwl fod 'na elfen o wir yn hynny yn enwedig wrth feirniadu mewn steddfodau a darllen y degfed stori gan rywun pymtheg oed oedd yn llawn o drallodau bywyd mewn cyfuniadau hynod yr oedd gen i obaith nad oedd neb, heb sôn am rywun mor ifanc, hefo profiad ohonyn nhw a'r stori'n argyhoeddi cymaint â'r ansoddair 'haeddiannol' o fewn canllath i enillwyr

Cân i Gymru. Ond wedyn bosib mai'r ymdriniaeth o'r pwnc oedd y drwg, nid y pwnc ei hun o reidrwydd. Fel pob cyn-gor sgrifennu, anodd iawn ydi dweud rhywbeth o werth mewn brawddeg. Mae profiad yn beth da ond gall profiad o alar yng Nghymru gael ei ddefnyddio i ddarlunio teimladau Ffrancwr mewn cnebrwng neu brofiad o gariad ym Mhenmachno gael ei droi yn stori am gariad yn Osaka dim ond i rywun sylweddoli bod modd gwneud hynny. Hynny ydi, bod y sylfaen o fyw yn rhoi digon o brofiad cyffredinol i rywun drafod pethau y tu draw i'w profiad uniongyrchol nhw, neu; defnyddiwch yr hyn yda chi'n wybod i sgrifennu yn hytrach na dim ond sgrifennu amdano fo.

Hyd yn oed mewn nofelau sydd wedi eu selio y tu draw i Gymru fe ellir lleihau'r sioc o hynny i'r darllenydd wrth ddatgelu fod cymeriad unai'n Gymro neu'n Gymraes neu hefo rhyw gysylltiad â Chymru. Eto, does yna ddim o'i reidrwydd o'i le ar hynny ond mae o'n batrwm sy'n codi'i ben dro ar ôl tro a does yna'm rhaid wrth ryw linyng bogal bob tro. Yda ni fod i gyd-ymdeimlo fwy hefo cymeriad o Rachub nac o Rwanda? Meddyliwch beth ma' hynny'n ddweud am ddarlennwyr ac hefyd am sgrifennwyr. Dylai fod gan awdur da y gallu i wneud i rywun gydymdeimlo gyda chymeriad o unrhyw gefndir.

Mae o'n fater o leisiau hefyd. Mwy'n byd o leisiau sydd o gefndir tebyg anodda'n byd ydi hi i gael amrywiaeth. Cymrwch lenyddiaeth Cymru yn y fantol; yn farddoniaeth, yn ryddiaith, yn ddramâu; yna meddyliwch am y bobol fu wrthi'n sgrifennu. Fel mae rhai wedi nodi mae yna ogwydd tuag at leisiau gogleddol, gwrywaidd, gwyn o gefndir penodol a hwnnw fel arfer yn cynnwys gradd mewn prifysgol. Mae lleisiau gwledig i'w clywed yn amlach o hyd hefyd i raddau - er bod pethau wedi newid mae prinder llenyddiaeth ddinesig o hyd, yn enwedig a chysidro fod pawb yn byw yng Nghaerdydd 'di mynd. Dwi'n gwybod mod i hefyd mewn difri yn rhan o'r broblem, os problem ydi'r gair hefyd. Mi fydda i, a'n gwaredo, rywdro os byw ac iach yn ddyn gwyn, canol oed. Dwi'n cydnabod hefyd efallai fod dod o hyd i leiafrifoedd mewn lleiafrif yn job ond mae'n rhaid bod yna ryw ffordd o fynd o'i chwmpas hi fel bod mwy o amrywiaeth.

Mae gan ddarlennwyr a'u disgwyliadau ac yn hynny o beth, gwerthiant, rhywbeth i'w wneud hefo hyn. Os oes yna un math o nofel yn fwy poblogaidd, a disgwyliad o rai nodweddion, yna anodd ydi beio gweisg ac awduron am

geisio boddhau'r gofynion. Anghofia i fyth yr hyn ddywedodd un awdur wrtha i am hynny. Daeth rhywun a fu'n darllen ei nofelau ato a dweud yn blaen eu bod nhw heb hoffi'r diweddaraf iddo'i chyhoeddi am na fedran nhw nabod neb ynnddi hi. Hynny ydi, nad oedd y cymeriadau'n Gymry Cymraeg ac o ardal benodol iawn yng Ngogledd Cymru fel roedd rhai'r nofelau blaenorol. Er nad oedden nhw chwaith, yn ôl yr awdur, dim ond fod nofel realaidd Ogleddol wedi'i gwneud hi'n haws i ddarllenydd gadw'r dehongliad plwyfol hwnnw yn eu pen. Iawn, digon teg, pawb a'i farn, ond choelia i fyth fod hynny'n feirniadaeth deg. Tydi awdur ddim yn gyfrifol am ddisgwyliadau na rhagfarnau darllenwyr, na'u diffygion nhw. Nid bwydo cynulleidfa hefo llwy a'u dwndian nhw ydi swyddogaeth awdur ond sgrifennu. Ddylai'r un awdur fod ag ofn sgrifennu'r hyn maen nhw isio'i sgrifennu - naw wfft i'r rheiny sydd heb eu plesio.

Efallai bod eraill yn gweld fod 'na bethau yng Nghymru sydd angen eu trafod; yn wleidyddiaeth, yn bethau cymdeithasol a diwylliannol ac yn y blaen, achos chwara teg, prin iawn ydi'r trafod ar betha' felly 'di mynd. Y rhesymeg wedyn ydi bod dihangfa i fydoedd a diwylliannau eraill yn rhywbeth na fedrwn ni fforddio ei wneud. Neu os ydi nofel yn gwneud hynny nad ydi hi o'i hanfod efallai mor werthfawr â nofel sydd yn ymrafael â'r pynciau hynny. Nid digon ydi dweud rhywbeth - rhaid ei ddweud o am rywbeth penodol sy'n mynd i helpu'r achos.

Iawn, falla bod sgrifennu mewn iaith leiafrifol yn weithred wleidyddol; falla bod rhai yn meddwl fod 'na gyfrifoldeb. Ond mewn difri calon, be ydi pwrpas iaith a diwylliant os ydi o'n ddim mwy na charchar, yn groglath am greadigrwydd rhywun?

Mae gan realaeth a sgrifennu Cymru-ganolog ei le wrth gwrs, a tydi pwnc trafod na lleoliad llyfr yn dweud dim am ei safon o. Y peth pwysicaf i mi ydi bod pawb yn teimlo'n ddigon rhydd i sgrifennu be bynnag lecian nhw, a bod y cyfleoedd ar gael o ran cyhoeddi a gwerthfawrogiad i'r gwaith hwnnw gael ei weld a bod ysgrifennu o bob math yn cael yr un chwarae teg. A sicrwydd i bob sgwennwr bod pa bynnag arddull neu ffurf maen nhw'n ei ddewis yn cael chwarae teg; does yna ddim safon wrthrychol i gelfyddyd cofiwch.

Bosib y bydd hynny'n anodd; tydi adolygydd sydd yn rhedeg ar un genre penodol neu'n gweld llai o werth mewn un math o beth ddim ffit nacdi, chwara teg, ac mi fydda'r byd llenyddol yn llawar brafiach lle tasa pawb yn fwy agored i'r hyn y tu draw i'w cylch nhw o ddarllen a sgrifennu.

Cymrwch gip dros y clawdd na rhyw ben - mae 'na fyd, a bydoedd, cyfan yno ac mae ganddom ni fel Cymry gymaint o hawl a neb arall i grwydro'r rheiny.

Llŷr Titus
Mehefin 2017

wedi methu unrhyw beth ar
ystamp.cymru?



Dyma flas o'r cynnyrch a gyhoeddwyd ar y wefan ers y rhifyn diwethaf:

| Ysgrif *Llefydd Symudol* **Morgan Owen** | Rhifyn 1 *Y Stamp* | Cerdd *Y Stamp* **Eurig Salisbury** | Trafod *Arfac Anrheg* **Daf Prys** | Cerdyn Post Creadigol *Lublin* **Llŷr Titus** | Cerddi *Dychlamiad / Carn Llidi* **Morgan Owen** | Cerdd *Cadenza Cerddorfa'r Orsaf* **Awen Fflur** | Stori Fer *Atgofion Annelwig* **Rhiannon Lloyd Williams** | Ysgrif *Pam darllen y clasuron?* **Dewi Alter** | Llun a Llên *Prifddinas Efa* **Lois** | Cerdd *Dru- idstone* **Elen Ifan** | Cerddi *Cerddi Amsterdam* **Bethany Celyn** | Ysgrif *Dinasoedd yr Hunan* **Morgan Owen** | Cerdyn Post Creadigol *Indonesia* **Mari Huws** |

MANON AMST
CWPLEDI

Artist y clawr yn dehongli ei gwaith ei hun trwy gyfrwng pytau o farddoniaeth

**o dan haen denau'r blaendir
colur gau sy'n celu'r gwir**

**nabod un dauwynebog
a'i r(h)ith yn ffraeth yn ei ffrog**

RHODRI AP DYFRIG IOS A TELSA

Chwythodd chwa o awel trwy wallt melynfrwn Telsa, gan oeri'r chwys oedd yn haen denau ar ei thalcen. Gallai glywed mwmian ei rhwydwaith o feicrofelinau yn chwyrlio yn ei brest, gan symud y gwres o'i chraidd yn agos at y croen. Roedd rhai o nodweddion esblygiadol y bobl yn ddefnyddiol i *andi* fel hithau hefyd.

Craffodd ei retcam trwy'r ffenest agored gan sganio'r blociau gwyrdd a safai fel meini hirion mwsoglyd o amgylch bloc canolog Maes Owain. Uwchben Bloc allanol #2 oedd y symudiad yn ôl y llun lloeren ddiwethaf. Gorchmynodd y fideo i chwarae am yn ôl gan roi llun top lawr ansuchel o'r 15 munud diwethaf a throi'r haen adnabod symudiad mlaen drosto. Prin oedd hyd yn oed y dechnoleg yma'n gweithio rhagor wrth i ymyrraeth electromag ac ambell *satwa* darfu ar signalau'r lloeren. Ond rhwng y sŵn weithiau ddi digon i roi ffics ar darged.

Dyna fo - 10 munud yn ôl – gwridodd y sgrin yn goch wrth i fflach sydyn o symudiad ddartio rhwng lloeriau uchaf Blociau #2 a #3. Dadansoddi symudiad oedd yr unig ffordd i adnabod heidiau ers i'w cuddliw deinamig gael ei rollo allan. Cymysgodd yr haid heb sêm â'r algae gwyrdd tywyll trwchus a dyfai dros holl waliau allanol yr adeiladau. Ffotograen ucheldech oedd yn galluogi'r plethu yn ôl dadansoddiad yr haid ddwetha ddaliodd hi. Ie, militariaeth o ryw fath neu'i gilydd sydd wastad wedi bod yr arloeswr technoleg gorau. S'dim byd fel bygythiad i dy ffordd o fyw i sbarduno R&D miniog.

Dyna sut y daeth hi i fodolaeth wedi'r cyfan.

Roedd ei synfyriadau wastad yn ei synnu. Yn tarfu ar ei phrosesau fel chwistrelliad o gôd diarth yn rhediad ei rhaglen. Doedden nhw ddim yn fod i ymyrryd pan oedd hi allan ar op fel hyn, ond yn ddiweddar roedden nhw'n dod iddi'n amlach. Ffordd iddi allu adlewyrchu ar ei phrofiadau a'i chof mewn ffordd mwy poblaidd oedd y ffwythiant synfyrio i fod. Creu'r effaith o 'smwytho corneli mwy miniog yr *andi*. Ond serch pob datblygiad tech D.A. newydd, roedd yn parhau'n anodd i atgynhyrchu'r hap synapsaid di-synnwyr yna sydd i'w gael mewn pobl. Ar y tu allan gal-lai ymddangos yn fwy naturiolaid, ond i Telsa roedd o'n broses arall oedd yn ei thafllu oddi ar ei gyriant ganolog.

Fiw iddi adael i hyn barhau heb amharu ar ei hela.

"Blydi meddal," meddylodd.

"Canolbwyntia, Telsa," sibrydodd yn gadarn dan ei gwynt.

Siarad efo hi'i hun. Un arall o feiau ei system. Grêt.

Trodd ei sylw o'r darlun lloeren at Bloc #3. Symu-dodd ei retcam yn fanwl ar draws waliau'r llawr uchaf. Roedd bygythiadau'n llawer anos eu canfod os oedd cud-dliw ganddynt; ond roedd yna wastad wendid. Doedd dim un *bot* yn berffaith. Roedd yn rhaid iddynt symud, ac roedd y siap coch yna a darodd ei retcam yn unigryw. Fel ffrwydriad cwmwl sborau o goden-fwg, yn diflannu yn ei olion ei hun.

Doedd Telsa ddim wedi ei rhaglennu i fethu. Gwar-chod oedd ei ffwythiant graidd. Doedd y gweddill yn ddim ond meddal. Mesurodd ei phellter o ffenestr #7 llawr #12 bloc #3. Roedd ei hanelwr o fewn 10.739 metr o gyrraedd pwynt agosa'r haid.

"Coc y gath", mellthiodd.

Piffiodd chwerthiniad yn sydyn o'r tu ôl iddi. Trodd yn siarp i weld los yn pwyso'n llac ar fframyn du y drws. Gydag unrhyw un arall byddai ei mmg wedi ei anelu'n un-ionsyth at ei galon. Clywasai ei galon gyfarwydd ddau lawr i ffwrdd a'i dracio fyny at y stafell hon lle safai'r ddau. los oedd ei harolygydd; hi oedd ei *andi*.

"Wastad wedi mwynhau dy regi creadigol Tels", meddai los gan slochian hylif oren llachar yn eiddgar o fflasg dryloyw.

"Ma'n un o bleserau bach 'y mywyd 'sdi. Diolch byth bo' ti ddim yn un o'r *andi* na sy' fel ffycin geiriadur."

"Ti'm isie i fi ddarlenn THPW i ti te?" ebychodd Telsa'n swta gan droi ei golwg nôl at ei gwaith.

"Gwna rhywbeth defnyddiol nei di, a cher i nôl yr 0011 o'r bag yn y gegin gefn i fi gael gwell cyrhaeddiad. Gadwa i'r ffics arno nhw."

"Ha! Ar ei ffordd sarjant!" atebodd nôl gyda'r mwynhad cyfarwydd.

Fel hyn yr âi gyda'r ddau bob tro. Allai los ddim helpu'i hun, ac roedd dadansoddiad ymateb Telsa yn gwneud iddi hithau ymateb yn yr un ffordd. Coegni oedd

eu *modus operandi*. Lŵp coeg caeedig. Ar wahan i ambell gamweithrediad yn ei system pan oedd los yn tynnu'i sylw'n ormodol, doedd hi ddim wed'i rhaglennu i falio. Peiriant amddiffyn oedd Telsa'n ei hanfod, ond er mwyn gallu cydweithio efo *andi* eraill roedd yn rhaid i'r *andi* hefyd fod yn beiriannau cydfyw.

Teimlodd Telsa'r cloc yn tician ar yr helfa.

"Brysia los! Neu fydd cnwd arall wedi mynd, a ti fydd yn cael y bai, dim fi."

"Iawn, iawn, ma'r basdad yn drwm! Ddim job ni di cario. Ddim efo'r cyhyra cig yma be bynnag. Hwda."

Cymrodd Telsa'r gwn ai godi at ei hysgwydd.

Cysylltodd y dur *biofec* yn ddiffwdan â phont ei hysgwydd. Doedd na fyth glitsh wrth i'r broses asio gicio mewn. Mor llyfn â gwisgo sidan.

Saethodd ei retcam fyny at y lleoliad eto ac aros am y symudiad yn y gwyrddni, y cryndod bach a ddatgelai'r targed.

"Diolch," dywedodd, wrth i gryndod ddod i'r cuddliw dros yr algae, "y cont blin iti."

Taniodd y taflegryn, ac mewn ennyd fer roedd wedi cyrraedd, datgymalu a thafu'r glud yn glep dros yr haid.

Un.

Crynodd yr haid yn ffyrnig.

Dau.

Gwelodd y glud yn cynhesu'n goch.

Tri.

Llosgodd y glud a'r haid yn fflam orenlas lachar, gan adael stêm yn codi o farc ysgafn du ar yr algae gwyrdd.

"Dwi caru chdi pan ti'n rhegi'n Gymraeg" gwenodd los, gan slochian eto o'i fflasg.

Disgynnodd Telsa i synfyfyriad eto, gan feddwl cy-maint roedd ei ochrau crwn, meddal, yn ei olygu i'r dyn unig hwn oedd a'r gofal amdani. A hithau'n gofalu amdano yntau.

los oedd ei harolygydd; hi oedd ei *andi*.

MARED LLYWELYN

CAER-WYDR

(Hywel Rheinallt o Enlli, 15fed Ganrif*)

Ym Mynydd Mawr ym mhen draw Llŷn, ar hen linell bell mae cysgod o benbwl du. Yn Ynys Afallon neu ryw lun o Dir Na n-Og. Yma, islaw mae dŵr y Ffynnon Fair yn dal i ffrydio pan ddaw llanw a thrai. Ble buodd y Pererinion yn yfed ei dŵr gloyw allan o'u dwylo. Ro'dd y daith yn gysygreddig iddyn nhw, gan fod tair taith i'r ynys hon gyfystyr ag un daith i Rufain.

Hawdd 'di credu hynny dim ond wrth edrych ar Enlli.

Wrth i'r swnt ddifaddau boeri ei hewyn claerwyn mae chwedloniaeth yn hudo'r gwynt. Yma, lle drylliwyd llongau, smyglwyr halen, gwirodydd a baco i'r bobl o'r oes a fu, does dim ond sŵn tonnau'r môr a'r gwynt drwy'r ogofâu. Ogo'r Benddu. Ogo Ellyll. Ogo Werbod. Ogo Lladron. Ogo Felan Fawr a Fach. Distaw yw'r Eglwys. Mud yw waliau'r hen ysgol. Dan bridd cynnes ynghau mae amrannau'r ugain mil o Saint. Yn ddistawach na phlu'r

Ddrycin Manaw yn disgyn o'i haden. Ynys sy'n llawn o chwedlau ddoe.

Heddiw, mae injan y *Benlli* yn grwnan heibio Pen Cristin o Borth Meudwy. Drwy dymhorau'r flwyddyn mae'r ffermwyr yn cneifio, yn hau a medi Cae Fwyallt, Cae Tarw, Y gwenyn yn prysur gwneud mêl. Y morloi yn udo eu babis bach. Daw pobl ifanc i ddefnyddio nerth bôn braich ar yr Ynys i weithio a chwysu drwy ddyddiau hirddydd haf. Arhosa rhai drwy ddrycinoedd y gaeaf hefyd, achos tydi Enlli ddim yn dod i stop.

Daw rhai yno i gael eu tawelwch, 'chydig o lonyddwch, o'r byd go iawn', ella. Mae mwy yma na chwedlau ddoe. Ma'r Ynys hon mor fyw ag erioed.

*O lyfr *Tu Hwnt i'r Swnt*, Marian Delyth

Llongyfarchion gwresog i Mared Llywelyn ar ei champ yn dod i'r brig yng nghystadleuaeth y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont, oddiwrth y Stampwyr oll. x

Y LAB RDY

Ym mhob rhifyn, mae'r STAMP yn herio beirdd neu lenorion i arbrofi â ffurfiau anghyfarwydd. Y tro yma, cafodd yr awdures **Manon Steffan Ros**, a enillodd wobr Tir na n-Og yn ddiweddar gyda'i chyfrol *Pluen*, yr her o droi ei llaw at gyfansoddi telyneg. Dyma'r canlyniad...

MANON STEFFAN ROS

MYNWENTA

Dy law sgwar ar garreg fedd
Yn weddi o drugaredd,
Yn 'mochel rhag dy niwloedd du
Dan ddail dy goeden deulu.

Mae neithiwr rhyngom ni ein dau
Yn gam ac oer fel beddau.
Wrth fynwenta, fe gawn 'nabod
Natur poeth ein pechod.

Mae meini marmor pobl fawr
Mor llugoer â mis Ionawr,
A'r haul ar lechen llwm dy daid
Yn gynnes fel fy nghoflaid.

Mae llonyddwch yn fan hyn,
Rhwng y daith a'i therfyn.
Llechi llwm, nid marmor du
Yw'r meini ynom ni.

SARA BORDA GREEN

ALAWON RHAGFYR Y MWNT

Erbyn hyn ry'n ni wedi gadael capel Mwnt,
wedi dringo'r clogwyn,
ac wedi

disgyn i
lan y môr.

Rwyf wedi symud ymlaen ochr yma'r lwerydd
bellach; ymhellach,
ac ar y dibyn rwy'n sefyll nawr, yn
nes i'r dŵr.

Hallt ac oer a miniog
yw'r alaw sy'n dawnsio o'n cwmpas,
gwahodda i mi glywed
sgwrs ysgafn fy ffrindiau annwyl;
eu hanadl gwyrddlas
a'u chwerthin mwyn.

Hoffaf eu lleisiau.
Caraf un ohonynt,
hyd yn oed.

Ond ger fy nhraed
mae pysgodyn llwyddlas yn pydru,
a'i wynt anhrugarog
yn taro fy mherfeddion.

Camaf yn ôl at y criw.

Cawell bach sgwâr
â bryniau uchel o'i gwmpas
yw'r traeth hwn.

Maen nhw wedi dechrau cerdded
yn gyson
yn fydrol
tuag at eu ceir
tu ôl i'r bryniau.

Dy'n nhw ddim wedi sylweddoli eto,
ond ry'n ni am hedfan tu hwnt i'r bariau,
lle bydd pawb yn gwahanu
i'r

pedwar
gwynt.

Ac yn sydyn rwy'n amau;
rwyf yn dallt

na fyddaf yn clywed y llais rwy'n ei garu eto
byth.

GAS GEN I
PAN DWI DDIM
YN CAEL HEDDWCH
I FYTA

AALAAAAAAA



NATH Y CYRCH 'MA
FY STYRBIO FI I AR GANOL
FY NGHINIO


SEIRENAU'N UDO,
BRECIAU'N GWICHIAN,
SGRECHIAN - MAE HYNNY'N
RHOI MYLL I MI BOB AMSAR

ALEK BEDNARSKI
PURGATOR




OND DYNA BE YDI BYW
YN Y DDINAS 'MA.
TI'M YN GALLU RHAGWELD
UNRHYW BETH



YN ENWEDIG PAN TI AR ÔL
LLAFNA FEL 'RASEL' - BAW
ISA'R DOMAN



MI ODD YR HEDDLU CUDD
YN HOLL GYFEILIORNUS TRO MA.
NAETHON NHW LANAST GO IAWN
OHONNI HI, ER NA DILYN 'RASEL'
I'W NYTH ODD Y FLAENORIAETH



NA FI OEDD YR UN
OEDD AM EI FFENDIO FO



I BE DA CHI'N
SYLLU!?
LLADDWCH O!!
SAETHWCH!!






BE OEDD
HWNNE, SARJ?

SAI'N GWBOD, OND
MAE RHYWBETH YN GWEUD
WRTHA I Y BYDDWN NI'N
EI WELD E 'TO





DW I'N GADAEI
Y DDINAS
NAWR



YN CAEL
FY NHYNNY
GAN GORFF
GLAS ERYRI

I GAEL GWARED
O FAICH
YR HUNLLEF

LLIO MAI

3 DARN O LÊN MEICRO

MASG

Cydiodd yn ei harfau. Y brwsh, y paent, y pensiliau. Dechreuodd lunio'r masg. Cuddiodd bob gwall, pob amherffeithrwydd a phob pechod. Ychwanegodd linell ddu i danlinellu'r cyfan, cyn ychwanegu atalnod llawn o finlliw a niwl o *hairspray*. A dyna ni, wyneb angylaidd dilychwin.

Eisteddodd yn hen sêd ei nain yn y cefn.

Gwrandawodd yn astud ar swyn geiriau'r dyn mewn du a

gwyn. Cofiodd am ei dyddiau diniwed, yn ifanc ac ar dân i brofi popeth yr oedd gan y byd i'w gynnig. Y dyddiau cyn iddi sylweddoli bod sawl lliw arall yn bod o fewn sbectrwm bywyd.

COFIO

Cofio oedd y peth mwyaf anodd. Ar y diwrnod cyntaf, pan gafodd ei dadebru, fe ddeffrodd, ac wedi treulio peth amser yn ceisio'i gorau i wneud synnwyr o bethau, llwyddodd i symud ei bysedd a bodiau ei thraed, cyn gallu gafael mewn pethau. Erbyn diwedd yr wythnos, or diwedd, roedd hi wedi ail ddysgu sut i gerdded. Roedd o'n deimlad rhyfedd i ddechrau, a hithau'n teimlo'n stiff ac yn cerdded fel petai'n un ohonyn nhw. Bob diwrnod roedd hi'n cofio rhywbeth newydd.

Wedi iddi adennill ychydig o'i chryfder, mentrodd allan o'i chiwbicl – pan nad oedden nhw'n edrych – a dyna

pryd y dechreuodd ei phroblemau. O'i blaen roedd portwll, a thrwyddo gwelodd sffêr o liwiau glas a gwyn a gwyrdd a miloedd ar filoedd o sêr yn ei amgylchynu. Wrth edrych arno daeth llwyth o luniau i'w chof, ond roedd hi fel petai rhywun wedi pwyso'r botwm *fast forward*, a doedd dim modd iddi weld yr un llun yn iawn. Dechreuodd orboethi. Doedd ganddi mo'r gallu i ddirnad y lluniau rhyfedd eto. Llusgodd ei hun yn ôl i'w chiwbicl a chysgu. Ym mherfedd nos, daeth y lluniau'n ôl i'w phoenydio. Deffrodd yn sydyn. Roedd hi wedi cofio gair – 'atgof'.

LLE BU DAWNSIO

Gafaelodd Mabel yn handlen fregus drws ei chof, ac fel petai rhyw hud rhyfedd wedi saethu allan ohono, daeth atgof byw o'r noson honno'n ôl ati. Yn gyntaf, y gerddoriaeth. Cofiodd gerdded ar hyd y coridor hir a chlywed sŵn hudolus y band yn ei denu i'r neuadd. Cofiodd am y wledd o liwiau, synau a symudiadau a ddaeth i'w chyfarfod y tu ôl i'r drws. Y merched yn eu ffrogiau lliwgar crand, a'r dynion mor smart yn eu lifrai. Roedd y cyffro'n

byrlymu y tu mewn iddi, a'i phen yn troi gan effaith yr holl oleuadau a'r miwsig, nes y teimlodd law'r Americanwr ar ei hysgwydd.

Dawnsiodd nes bod ei thraed yn goch, a phawb ar wahân iddo fo yn toddi i'r cefndir. Gwenodd Mabel wrth gofio. Ond dechreuodd yr atgof bylu. Ceisiodd wthio'r drws, a'i llaw fel gefail am yr handlen. Pan agorodd, doedd dim ar ôl ond pentwr rwbel, lle bu dawnsio.

AILBOBI JONES

Gwnaeth Y STAMP addewid i gloddio am waith llenorion Cymraeg a anghofiwyd gan y status quo. Y tro yma, **Gwilym Bowen Rhys** sydd yn rhoi golwg ar waith **Mynyddog** (1833 - 1877), ac yn dadlau'r achos o'i gydnabod fel un o lenorion pwysicaf Cymru'r 19eg ganrif.

GWILYM BOWEN RHYS

MYNYDDOG – BARDD Y BOBL

'...Cymerwch chwi'r caneuon, cymeraf finau'r pres.'

Dyna linell olaf rhagymadrodd 'Caneuon Mynyddog' sef casgliad cyntaf o gerddi Richard Davies (1833 - 1877). Yn syth mae o 'di dwyn ein sylw...'di'r boi yma ddim am falu cachu, ac mae o'n lais fresh ac uniongyrchol sy'n serennu ymysg haid o'i gyfoeswyr sidêt a pharchus-Fictorianaid.

Un o Lanbrynmair ym Mhowys oedd Richard, ac mae'n debyg iddo gymryd ei enw barddol gan fryn lleol o'r enw Newydd Fynyddog lle y bu'n bugeilio yn lencyn (yn hytrach na gan Mynyddog Mwynfawr fel y credir gan rai). Bu iddo fwrw ei brentisiaeth barddol mewn steddfodau lleol ers yn ifanc, ond y mesurau rhyddion oedd yn mynd a'i fryd ac fel y gwelwch o deitl ei gyfrol uchod, 'caneuon' y byddai'n eu sgwennu, nid 'cerddi', i'w canu ar alawon poblogaidd y dydd.

Efallai y bydd rhai yn synnu o glywed bod geiriau'r dyn yma yn fwy adnabyddus i drwch poblogaeth Cymru nac unrhyw lenor Cymraeg arall o'r 19eg ganrif, yn wir, yn fwy na'r rhan fwyaf o lenorion Cymraeg ffwl stop! 'Da chi 'rïoed di canu'r geiriau: 'Mae bys Meri Ann wedi brifo a Dafydd y gwas ddim yn iach', neu 'Paham mae dicer, O Myfanwy'? Wel, 'rhen Dic sgwennodd heina 'chi. Mae penill gynta Sospan fach yn ymddangos yn y gân hyfryd 'Rhowch broc i'r tân', sy'n disgrifio sut y gall holl anawsterau a blinderau'r dydd gael eu lleddfu wrth eistedd o flaen tanllwyth o dân a chanu pennill neu ddwy.

A be am 'Myfanwy'? Wel, sgwennodd Joseph Parry y gerddoriaeth hyfryd i eiriau hyfrytach (dadleuol) Mynyddog, yn hytrach na'r ffordd arall rownd. Ma na blydi amgueddfa gyfan i Jo Parry ym Merthyr, a'r oll ma 'rhen Dic yn ei gael ydi plac bach ar 'i dŷ, a dwi methu hyd 'noed ffeindio llun ohoni ar y we!!

Dyn o flaen ei amser oedd Mynyddog. Yn y cyfnod pan roedd llawer o'i gyd-lenorion yn llyfu tin y



GBRh. Llun: Kristina Banholzer


frenhiniaeth, yn ymfalchïo yn yr ymerodraeth ac dibrisio iaith eu mamau, roedd Dic yn hyderus gyhoeddi caneuon megis 'Gwnewch bopeth yn Gymraeg,' gyda'i fyrdwn sy'n adleisio'r arwydd a welwn yn aml ar gownteri siopau...'dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg'; 'Y Caethwas,' sy'n galaru a chydymdeimlo'n angerddol â ffawd creulon dioddefwyr yr ymerodraeth; a chaneuon gwlatgar megis 'Bedd Llewelyn' a 'Rhyddid i Gymru'...oes angen dweud mwy?

Felly, prydydd dawnus? Tic. Gwladgarwr tanllyd? Tic. Cynganeddwr?! Wel TIC myn dian i! Gwelwn ei allu cynganeddol yn 'Cywydd i ddiolch am ffon', sy'n disgrifio'n ffræth sut y bydd ffon a gafodd gan ei gyfaill yn ei amddiffyn rhag bwganod y nos, ac yn arf hwylus yn erbyn ambell lenor sydd angen cic-yn-din:

...Os bwriada ysprydion
 Rodio gwyll yr adeg hon,
 Laeniaf yr holl gâd elynol
 Ffwr 'n un haid i uffern yn ol! ...
 ...Ni chym'raf ragor o'm sorri,
 Ddowch chwi feirdd i heddwch a fi?...
 ...Os clyw Cymru eich rhu a'ch rhoch,
 Pwniaf bob copa o honoch.

Efallai bod rhai ohonoch chi ddarllenwyr deallus a chraff Y Stamp wedi sylwi nad oedd Dic yn gywyddwr technegol berffaith, gan bod y rhan fwyaf o'r llinellau uchod yn 8 sill. Ond nid 'bardd y beirdd' mo enw'r erthygl hon, ond 'bardd y bobol'. Dyma un amddiffyniad olaf:

Ar noson o Ragfyr ym 1953 cerddodd yr Americanwr Alan Lomax i mewn i dafarn yn Nhreorci a gwasgu 'record' ar ei beiriant tâp. Y canlyniad yw awr o recordiad sain o lowyr yn dweud jôcs ac yn canu caneuon sy'n gymysgedd o Saesneg a Gwenhwysseg hudolus, gydag ambell 'boi bêch' yn awr ac yn y man. Maent yn canu dwy gân gan Mynyddog – 'Hogyn gyrru'r wedd' a 'Cartref' ynghyd ag ambell emyn a baled Saesneg. Mae'r ffaith bod geiriau Mynyddog dal ar enau'r werin bron i ganrif wedi'i farwolaeth yn dyst i'w ddawn, a bod ei ganeuon mor afaelgar a hyfryd o syml fel eu bod wedi enill eu lle yng nghalon y bobol. Felly cofiwch, y tro nesa y byddwch yn bloeddio bod cath wedi sgrapo Joni bach, codwch wydryn i 'rhen Dic!



I ganfod y recordiad o 1953
 ewch i:

www.culturalequity.org

a chwiliwch am 'Wales'



Pa lenorion anghofiedig yr hoffech chi weld eu gwaith yn cael ei ailbobi?

golygyddion.ystamp@gmail.com // [@ystampus](https://www.instagram.com/ystampus)

MYNYDDOG CERDDI

AR FEDD LLEWELYN

Ar fedd Llewelyn, heb un maen na chof
I ddweyd yr hanes – dim ond dagrau cenedl
Wedi’u cyd-gymysgu gyda gwllith y nos
Uwchben y marw sy’n anfarwol byth:
Fan hono safai gwr,
Yn rhoi ei bwys ar garn ei waedlyd gledd,
A chanai:

Ar un o fryniau Buallt draw
Fe safai’r dewr Lewelyn,
A’i gleddyf gloyw yn ei law,
Gan edrych ar y gelyn,
A gwaeddai, “Filwyr, dewch yn awr,
I’r goncwest fawr neu drengu”
A dyna’i floedd wrth fynd i’r gad:
“Yn enw Duw, ein hiaith, a’n gwlad,
Y ddraig, a rhyddid Cymru.”

Yn ngwaelod gallt ger maes y gwaed,
Pan ddaeth y frwydr i derfyn,
Fe glywid trwst bradwrus draed
A thwrf rhegfeydd y gelyn
Ac uwch tinciadau’r arfau dur
Fe waeddai’r dewr wrth drengu:
“Doed mil o oesau eto i’r gad,
Yn enw Duw, ein hiaith a’n gwlad,
I gadw rhyddid Cymru”



CARTREF

Wedi teithio mynyddoedd, llechweddi a chymoedd
A llawer o diroedd blinderus,
Does unlle mor swynol na man mor ddymunol
Na `nghartref bach siriol cysurus,
Pan fo’r gwyntoedd yn chwythu a’r storm yn taranu
Ei chorn i groesawu y gaeaf,
Mae nefoedd fy mynwes yn yr hen gornel gynnes
Yng ngwmni fy nheulu annwylaf

Ond fel mae’n dda gen i `nghartref
Hen le bendigedig yw cartref,
Chwiliwch y byd drwyddo i gyd,
Does unman yn debyg i gartref.

Mae yr aelwyd ddirodres yn agor ei mynwes
Im derbyn yn gynnes heb genad
Ac mae’r hen gadair hithau yn estyn ei breichiau
A bron a dweud geiriau o gariad,
Mae y dodrefn yn gwenu i gyd o fy neutu
A phrin mae’r piseri heb siarad
Ac mae’r hen awrlais tirion pan gura ei galon
Yn siarad cysuron croesawiad.

CYFWELIAD

Miriam Elin Jones yn holi

RHYS TRIMBLE

M: Gan ddechrau gyda'r dyfodol agos, pa brosiectau sydd gen ti ar y gweill ar hyn o bryd?

RhT: *Wel, lot o bethe.* Ti 'di gweld y zine **Pelydr Ng**? Mae lot o bethe 'di dwad yr un tro. Nes i gynnwys y peth gludwaith 'naeth Grug Muse ynddo fe. Fi a ffrind fi Huw Prestatyn 'di creu zine arall printiedig, a ni 'di gyrru hwn i Dresden. A ni newydd gael neges nôl yn dweud; mae rhywbeth yn rong gyda'r ffeil 'ma, achos, tmbo, || **mae'r drefn || yn rong || a'r FFONTS YN WIRION.** || A gorfod deud, ni isho fo fel 'na. [*chwerthin*] Y peth gyda'r ffontys gwahanol, y mesostics, mae pobol yn meddwl: *It's sort of like grunge, is it?* Ti'n gweld be dwi'n feddwl? Mae'n ddoniol, ond mae e jyst yn completely wirion mental. **Mae ctrl+alt+del slightly fwy gall, tmbach fwy llenyddol.** So mae hwnna ar y gweill. Dwi'n mynd i lansio hwnna. Mynd i 'neud e yn Gŵyl Lenyddiaeth Ryngwladol sy'n Bangor cychwyn mis Mai. Fi hefyd wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda Chymdeithas yr Iaith a ni'n mynd i gael hwylddydd yn Bethesda. A mae hwnna'n cysylltu gyda phobol sy'n trio cychwyn rhyw fath o le celf ym Mangor, sef Noddfa. Felly gwneud hyn ar y cyd gyda Chymdeithas yr Iaith a LIŶr Alun, ac mae e jyst braidd yn anarchaidd a gwirion, a byddai'n rhannu'r peth Pelydr Ng. Mae hysbys Y Stamp yn [Pelydr Ng] hefyd; llun y stamp ei hun.

M: Mae'r ddelwedd yna 'di taro tant. Mae angen i Grug Muse feddwl am fynd yn artist, ond dyna ni, barddoniaeth yw ei thing hi. Mae hi'n greadigol mewn ffordd weledol iawn – dwi ddim fel 'na.

RhT: Dyw rhai pobol llenyddol ddim yn weledol nachdan. Mae rhai pobol ar y geiriau a 'na gyd, a mae hynny'n dda hefyd. Dwi'n weledol, gan drïo cyfuno fe i fewn yn y farddoniaeth, gan geisio cyfuno'r ddau beth yn un ffurf.

M: Dwi 'di gwirioni gyda'r gerdd gennyti yn ctrl+alt+del, Tywysog, reit ar y dudalen olaf. Fi'n un o'r bobol yna, bydden i'n jyst methu gwneud iddo edrych na llifo fel 'na fel cerdd. Sut nes di hyd yn oed feddwl am wneud hynny, gan helpu rhywun hollol ddi-glem fel fi?



Llun: Huw Prestatyn

RhT: Wel, mae e fel... dyfyniad o farddoniaeth sydd wedi dod o'r blaen. O'n i'n chwilio am bethau oedd yn arbrofol yn y Gymraeg o'r gorffennol. So nes i ffindio pethau o Poetry Wales, 1969 dwi'n i'n meddwl oedd o, ac **roedd pobol yn neud tamed bach o gerddi concrit, gweledol ar y pryd**, a mae hwnna'n jyst tri ohonyn nhw. Dwi 'di torri cylch mewn un ac wedi ei osod o dros ben un arall, a dros ben trydydd, so bod twll yn mynd trwyddo. Ond gwaith beirdd eraill yw hwnna. Bosib Meic Stephens wnaeth un ohonyn nhw.

M: Roedd gan Meic Stephens lot o erthyglau diddorol – tua late 1950s, early 1960s – yn sôn am fel ddiffyg sîn barddoniaeth weledol yn y Gymraeg, creu cerddi o siapau a siarad am foderniaeth. Un o finds random fy ngwaith ymchwil. Synnais, achos i fi, beirdd Cymraeg yw'r bobol Eisteddfodol ti'n eu gweld drwy'r amser.

RhT: Dyw e ddim yn gŵyn newydd te, mewn ffordd, nacdi?

M: O ble ddes di ar draws y dulliau rwyd ti'n eu defnyddio heddiw?

RhT: Ym, dwi'm yn siŵr iawn. Nes i ffindo fe'n haws cychwyn yn Saesneg rili, achos o'n i'n syth bin eisiau rhywbeth arbrofol. Roedd fy ngreddf i'n mynd tuag at bethau mwy arbrofol a gwyllt, y pethau ro'n i'n gallu ffindio. Nes i fynd drwy llyfrau, blodeugerddi, chwilio am y pethau mwyaf mental, **William Carlos Williams**, neu **e e cummings**, rhywbeth fel 'na. O fan 'na nes i ddatblygu'r tast hwn sydd gynno fi. Wrth berfformio daeth y diddordeb i fynd yn ôl i'r Gymraeg wedyn. Tmod. O'n i'n licio pethau canoloesol Cymraeg. *Poni welwch chi hynt y gwynt a'r glaw a pethau fel 'na...* i fi, roedd y ddau fyd yn debyg rhywsut. Achos mae cynghanedd... os ti'n sbio ar cynghanedd o'r tu allan mae'n beth rili arbrofol ac unigryw. Dwi'n gweld o'n debyg i bethau arbrofol, ond fi 'di hynna, de.

M: O feddwl, actually, os wyt ti'n ei esbonio i rywun mewn unrhyw fan arall yn byd, mae 'na elfen o... 'ym, what?' yn perthyn iddo.

RhT: Os ti'n perthyn i'r diwylliant 'Steddfod, mae'n gallu bod yn sych yntydi. Ond os ti'n sbio i'r oes cyn iddyn nhw ddyfeisio fo a chyflwyno rheolau pendodol, roedd o jyst yn bobol yn chwarae gyda geiriau. Marwnad Llywelyn ab Gruffudd, mae e jyst **cyn i'r rheolau**, y mesurau a phethau, **gael eu 'sgrifennu lawr**. So o'dd e jyst yn, mwy fel, **free form cynghanedd. Fel jazz**. A wedyn ga'th rywun y syniad o wneud e'n rili ffurfiol. O'dd y cynfeirdd a phobol fel 'na, nhw wnaeth greu hyn rywsut, a mae'n ddwys iawn, ond yn yr oes cyn y pedwar mesur ar hugain, roedd yna lot o waith arbrofi.

M: ...dychmyga esbonio hynny, ac esbonio'r 'Steddfod i rywun o wlad arall. Mae'n bizzarre.

RhT: Mae'r blokes yma'n gwisgo fyny fel druids, cleddyf massif a plastig gorsedd a wedyn mae'r holl beth wedi selio ar syniad boi oedd yn opium fiend...

M: Mae pobol yn mynd mor pissed off pan wyt ti'n sôn am y 'Steddfod yn y fath dermau. A dyma wedyn mynd a gwneud bardd – bardd! – yn frenin neu frenhines ar orsedd y sioe. Mae e bron – bron! – yn royalist fanatasy.

RhT: Nes i ddim meddwl am hwnna.

M: Mae 'na elfen abswrdd iddo... Weird.

RhT: Mae'n ddiddorol sbio arno o'r tu allan. Ond mae pethau da am y 'Steddfod. **Fel cystadleuaeth barddoniaeth mae'n uffernol o dda, achos mae cystadleuaethau Saesneg rili jyst yn ffurf o gael pres gan bobol**. Ti'n talu pres i fynd i mewn iddo, ac mae'r pobol sy'n creu'r gystadleuaeth yn casglu pres. **Dyw'r 'Steddfod ddim, mae 'na integrity i'r peth**.

M: Bosib bod angen mwy o weithgarwch na jyst y 'Steddfod tho, a bod ctrl+alt+del yn rhan o hynny?

RhT: Wel, dwi ddim yn erfyn fydd e'n boblogaidd na dim, ond jyst eisiau neud pwynt, bod 'na... bod 'na **ofod** i chwarae efo fo sy' ddim yn cael ei dwtshad yn y diwylliant Cymraeg yn anffodus. Eisiau ail-afael yn hwnna ydw i. Eisiau gwneud comment ar bethau gwahanol a ehangu'r diwylliant. Dyna dwi a Huw Prestatyn yn trio neud efo'r zine, **Pelydr Ng**. Ni'n cyfieithu *Beowulf* a Allen Ginsberg's *Howl* i'r Gymraeg, a jyst cael jôc ond gofyn hefyd, pam fod diwylliant Gymraeg mor gyfyng?

M: O ran y Gymraeg yn gyfyng, mae agweddau pobol at fy mhwnic ymchwil – ffuglen wyddonol yn y Gymraeg – o hyd yn sort of, fy synnu i. Tair, pedair blynedd nawr, a dwi dal yn gorfod dadlau i bobol bod SF Cymraeg yn bod.

RhT: Mae SF yn esiampl dda. **Mae'n fath o ddiwylliant sy'n apelio at bobol niche, ond os ma' hwnna ddim yn**

"Ni'n cyfieithu
Beowulf a Allen
Ginsberg's *Howl* i'r
Gymraeg, a jyst cael
jôc ond gofyn hefyd,
pam fod diwylliant
Cymraeg mor gyfyng?"

bodoli yn y Gymraeg, mae nhw jyst yn mynd i fynd off a neud o'n Saesneg. Ac i siarad am y cysylltiadau sy'n bod rhwng Cymraeg a Saesneg, a ni gyd nawr fel pobol Cymraeg yn gwyllo ffilmau Saesneg a darllen llyfrau Saesneg ond **dy'n ni ddim yn sôn am y peth.**

M: Fel rhyw fath o dirty little secret? 'Mhroblem i ar hyn o bryd yw gweld sut mae cael rhywbeth niche, SF, o fewn rhywbeth arall niche, fel y Gymraeg/diwylliant Celtaidd. Os nagos gyda ti gynrychiolaeth o bob peth yn y Gymraeg, ti ffili rili dibynnu bod pawb sy'n siarad Cymraeg yr un peth.

RhT: Beth yw dy ateb di yn dy ddoethuriaeth?

M: ...dwi heb gyrraedd y bit yna eto.

RhT: Mae'n ddiddorol. Roedd fy noethuriaeth i'n casglu pobol arbrofol yn y Gymraeg. A ma' rhei ochr sgrifennu'n Saesneg ond trio gwneud cynghanedd, englynion yn Saesneg, ac yr ochr Gymraeg gen ti feirdd fel **Meirion Pennar** a **Euros Bowen** sy'n, sgrifennu'n Gymraeg ond edrych dros y ffin i bethau sy'n Saesneg.

M: A, dwi'n gyfarwydd ag automatic writing Meirion Pennar, Syndod y Sêr.

RhT: Roedd e rhywsut wedi – roedd ei fam o o'r Almaen – so roedd yn gwybod am ryw avant-garde group o'r Almaen. Yna dyna sut o'dd e'n sgrifennu. Rili grêt. Rhywun yn pointio at ddiwylliant enfawr sy'n bod yn Ewrop: avant-garde, Ewropeaidd. Mae'n atgoffa fi o fynd i gynhadledd o fath yn Gwlad Pwyl, ynglŷn â leithoedd Celtaidd, a wedyn fan 'na, roedd Cymraeg jyst ar yr un lefel â Pwyleg, Ffrangeg a bob dim arall, achos o'dd e tu allan i'r Deyrnas Unedig. O'dd o jyst ffaith. Ar yr un lefel â phob iaith Ewropeaidd arall. A ma' hwnna'n deimlad neis. Ti ddim yn cystadlu gyda'r Saesneg, ti **jyst** yn iaith arall.

M: Bosib weithiau 'fyd ni'n dueddol o gau ein hunain a'r Gymraeg i fewn, a chadw mewn bubble bach saff. Bod hi mewn cwmni, yn y cyd-destun yna, a pharch gwledydd eraill at y Gymraeg eto.

RhT: Pan ti'n mynd i ryw gynhadledd fel 'na, ti'n gweld bod diwylliant efo lot o gryfder iddo fo. Lord of the Rings

yw'r esiampl. Er bod e'n wirion. Gen ti Tolkien wedi creu iaith sydd wedi selio ar y Gymraeg, a ma' 'na elfen o Gymreictod yn hwnna mewn byd poblogaidd. **Mae o'n vote of confidence bod diwylliant Cymraeg yn dda yn ei hunan.**

M: Un peth roeddwn am ofyn, gan newid trywydd rhyw fymryn, oedd sut wyt ti'n cael gafael ar y beirdd arbrofol, avant-garde hyn, yn enwedig yn y Gymraeg?

RhT: Na'th e gymryd blynyddoedd. Nes i gychwyn neud ctrl+alt+del tua 2008, penderfynu wedyn na'i neud un yn Gymraeg. Roies i shout out ar Facebook a glywes i ddim byd, ac yna roedd rai i fi jyst mynd i dai pobol basically a deud. A wedyn nes i ddechrau ffeindio pobol a mynd fel ditectif yn mynd ar drywydd y bobol 'ma. So ie, mae...tmod 'lfan', **Peter Mayer**, mae o Ganada wedi dysgu Cymraeg a mae'n byw yn Llangollen. Mae o'n cyfieithu stffw i Ffrangeg, siarad Saesneg a Ffrangeg a



Gwaith celf / torrydd Grug Muse ar dudalennau'r ctrl+alt+del diwethaf

Chymraeg. So mae'n defnyddio tair iaith bob tro, sy'n ddi-ddorol. Nes i ddarllen Bedwyr Williams 'di neud Google Translate o gerddi Cymraeg enwog, a ro'dd hynna'n ddifyr. A wedyn nes i ddigwydd ffindo boi yng Nghaerdydd, Aron Jones, sy'n neud torrydd. Mae'n neud torrydd radio, a nes i ffindo fo ar **SOUNDCLOUD**, a digwydd cyfarfod o a gweld bod o'n neud cut ups Cymraeg. Pwy arall sy ynddo...?

M: Fi a Grug...?

RhT: Ti a Grug fatha personal invite.

M: Trion ni gael lestin Tyne i sgrifennu cerdd torrydd, ond he was having none of it.

RhT: [chwerthin] O! Mae'n lico'i delyneg neu rwbeth, ondyw o...?

M: Pawb at ei beth.

RhT: Dwi'n parchu pobol fel lestin a Eurig Salisbury sy 'di ffindio'u peth nhw. Es i i ddsbarth barddol gyda Karen Owen - o'n i'n ceisio cynganeddu. A dwi'n iwso elfennau ohono yn fy ngherddi i hyd dwi'n medru neud o. Ella mae'n sour grapes bo fi heb gael coron neu cadair, ond...

M: It's never too late...

RhT: Wel, ie. Na'i ddisgwyl tan dwi'n fy mhumedgau, chwechdegau.

M: Surprise!

RhT: Dwi 'di bod yn gweithio ar awdl ers dau ddeg mlynedd...

M: Wyt?

RhT: Nadw. [chwerthin] **Mae awdl yn fesur arbrofol i fi, achos mae'n trio cymysgu bob dim mewn un ffurf.** Roedd Eurig yn sôn i fi dwi'n debyg i fardd o'r enw Robin Clidro, a oedd yn fardd fatha... O'dd o'n unfed ganrif ar bymtheg, bardd tafarn neu rwbeth. A mae 'di dyfeisio mesur ei hunan, Mesur Clidro, twtsh o gynghanedd yno fo. So ma' hwnna'n un o esiamplau fi o rwbeth amgen yn y diwylliant Cymraeg.

M: Beth dwi'n mwynhau fwyaf am 'studio Cymraeg – ryddiaith a barddoniaeth – dod o hyd i bethau fel hyn, pethau wnaeth fy swyno i oedd gwaith Mihangel Morgan, 'Awelon' Aled Jones Williams, pethau o mai god, maen nhw'n wahanol.

RhT: Mae'n anhygoel. Pan ti'n gweld cerdd Aled Jones Williams ti fel - mae hwn yn *mental*. Ac ro'n i'n ffan mawr o Mihangel 'fyd, achos mae o'n ôl-fodernydd, ac mae o fel chwa o awyr iach. Os ti tu allan i'r orsedd, ti'n teimlo tipyn bach ti isho...mae 'na awydd. Bosib bod hi'n amser am rwbeth mwy amgen ddod i mewn. Mae 'di digwydd yn y gorffennol wrth gwrs. Gen ti bobol fel Euros Bowen, o'dd yn boblogaidd – a pwy arall, Bobi Jones, a oedd eitha arbrofol.

Ond dwi'n cael y syniad nath bobol jyst troi cefnau ar y pethau arbrofol 'na oedd yn trio egino yn y cyfnod yna... Gall bethau newid eto. Yn enwedig nawr.


“...dwi di bod
yn gweithio
ar awdl ers
dau ddeg
mlynedd...”

trimbling.com // [@rhystrimble](https://twitter.com/rhystrimble)

Rhifyn Cymraeg **ctrl+alt+del** :

http://cad.trimbling.com/issues/cad_cymraeg.pdf





MATTHEW TUCKER
CYRRAEDD Y COPA
(mewn ymateb i'r llun)

Rwy'n sgwarnog
sy'n dyheu am gael
cyrraedd y copa.

Ehangder y nos
sydd yn fy ngwahodd
i'w flasu,
a chylchoedd y ne'
yn fy hudo
i fynd gam yn agosach.

Neidiaf dros furiau'r defaid,
a'i gwadnu hi tua'r grib
heb oedi i gymryd anadl.

Heidiaf i fyny'r llethrau
i deimlo'r awel yn fy anwesu,
ac i arogl gloywder y sêr.

Ydw, rwy'n sgwarnog
sy'n dyheu,
dal i ddyheu
am gael cyrraedd y copa.

RUTH RICHARDS

PEN-BLWYDD PERO

Treuliodd y merched brynhawn cyfan yn y bar. O un o'r gloch tan wedi pump, yn rhannu plât o gigoedd, cawsiaeth a bara. Chwaraeant â'r bwyd; gwin oedd y flaenoriaeth iddynt. Tair gwaith, rhoddwyd potel o Sauvignon Blanc ben i waered yn y bwced rew, a tair gwaith gofynnwyd am un arall. Wrth i'r prynhawn dynnu ymlaen, llaciodd yr awyrgylch a'u lleisiau.

Roedd y dair mor wahanol i'w gilydd; anodd oedd dyfalu beth oedd ganddynt yn gyffredin. Einir oedd yr hynaf: tridegau canol, efallai. Efallai'n hŷn; mae arian, chwaeth ac ymdrech yn gallu herio amser yn rhyfeddol. Yna Aimee, yn ifengach, amlycach ei hapêl; yn fwy llachar ym mhob ffordd. Ac yn olaf, Ffion, yn ifanc iawn; tawelach, braidd yn ddihyder a di-glem.

Digon o waith oedd credu eu bod yn gydweithwyr. Anodd dychmygu unrhyw gyflogwr na sefydliad gyda delwedd mor amrywiol na hirarchaeth mor llac. Ond yn amlwg, roedd rywbeth neu rywun yn eu huno mewn cynllwyn swmpus.

"Beth wnawn ni wisgo?" gofynnodd Aimee.

"Jîns?" awgrymodd Ffion.

"LDBs a sodlau," meddai Einir.

"Classic," cytunodd Aimee. Edrychodd Ffion yn ffwndrus arnynt.

"Oes gen ti ffrog fach ddu?" gofynnodd Einir yn garedig. Roedd Aimee a hithau'n trin Ffion fel chwaer fach, neu'n ymddwyn tuag ati fel dwy fodryb drendi.

"Mae gen i ffrog brynes i ar gyfer fy nawns graddio ... Mae honno'n ddu, ond yn ofnadwy o smart - mae'r sgert yn les i gyd ..."

"Perffaith - sorted," meddai Aimee, gan daro'r bwrdd yn derfynol, ei hewinedd arian yn fflachio.

"Nos Wener amdani, felly," meddai Einir, gan godi ei gwydr. Roedd y gwydrau'n tincian a'r tair yn chwethin.

"Beth wyt ti ffansi ei wneud ar gyfer dy ben-blwydd?" Gofynnodd Einir i Trefor wedi iddo ddod allan o'r gawod ar ôl diwrnod caled o waith. Rhoddodd wydriad o'i hoff wisgi brag iddo.

"Wn i'm; dywed ti."

"Rioja's?" Roedd gan Trefor siârs yn y bar tapas.

"Beth am rywle mwy sbesial?"

"Dwi'n lecio Rioja's," meddai Einir. "Mae'n gartrefol braf, ac mae pawb yn dy 'nabod di yna."

Gwenodd Trefor. Roedd pawb yn ei adnabod mewn llefydd moethusach hefyd, ond efallai mai aros tan iddo gwblhau ar y fflatiau fyddai orau, cyn gwneud gormod o sbloets ...

Byddai'n gwneud elw twt ar rheiny. Gwyddai fod baddon a chegin swagar yn cuddio myrdd o bechodau, a bod mewn dalgylch ysgol dda'n gosod crocbris. Roedd Llys y Cadno'n ticio pob boc, ac yn tanio ei ddychymyg fel peiriant ffrwythau.

Roedd Trefor ar delerau rhagorol â'r byd a fo ei hun. Roedd o'n gês, yn dipyn o dderyn, ac yn goc oen. Er na fyddai byth yn cydnabod yr olaf.

Ar brynhawn ei ben-blwydd, galwodd Trefor yn Llys y Cadno i gael un cip olaf cyn i'r gwerthwr tai ddod draw i dynnu lluniau. Roedd y bois wedi gwneud job dda, ac wedi torri costau i'r asgwrn. A dweud y gwir, ni fyddai ganddo lawer o gywilydd symud yno ei hun. Efallai y byddai'n cadw'r fflat pentis am ychydig; byddai'n arbed ar gostau gwestai.

Cyrhaeddodd y ferch gwerthu tai; roedd hi'n newydd. Handi, meddylodd Trefor. Wedi tynnu'r lluniau, cytunodd hithau fod galw mawr am eiddo o'r math.

"Mae hi wedi pump ac yn brynhawn dydd Gwener," meddai Trefor wrth iddynt adael yr adeilad. "Wyt ti'n ffansi drinc bach sydyn?"

"Dim diolch."

Daria; doedd Trefor heb ystyried y byddai lesbian byth yn gwisgo sgidiau fel 'na.

"Waw, ti'n edrych yn gorjys!" meddai wrth Einir yn ddiweddarach.

"Yr hen beth yma? Mae hon yn hen fel pechod ..."

meddai hithau, gan lyfnhau'r defnydd dros ei chluniau.

"Rhy dda i Rioja's ..."

meddai Trefor.

"Ond nid i ti, cariad."

"Alun, ga'i botel o siampên?"

"Iawn, bos." Roedd Trefor yn lecio cael ei alw'n fos, er y bod llawer, gan gynnwys Alun, yn gwneud hynny gydag eironi.

"Mm, lyfli," meddai Einir ar ôl y sipied gyntaf. Dros ei hysgwydd, gwelodd Trefor Aimee'n dod i mewn, yn gwisgo ffrog ddu fain. Feddylodd o byth y byddai Aimee'n dod i'r fath le. Roedd rhaid talu drwy'i drwyn cyn y byddai honno'n cytuno mynd i unlle. Cerddodd tuag ato, a dechreuodd yntau chwysu fel labrwr drwy'i grys lliain gwyn.

"Hi, Trefor. Wyt ti ddim am brynu siampên i mi?"

"Ym, siampên arall, Alun ..."

"Potel, bos?"

"Ia, siŵr iawn!" meddai Aimee.

Daeth tawelwch. Roedd y ddwy ferch yn anwybyddu ei gilydd yn llwyr.

"Ym, Einir, dyma Aimee; Aimee, Einir ..."

"Mm," meddai'r ddwy, heb edrych ar ei gilydd.

"Dach chi'n iawn, bos?" gofynnodd Alun, a gyda rhyddhad, dechreuodd Trefor sôn wrtho am y fflatiau. Rhywbeth i dorri ar y tawelwch.

"Sgiwsiwch fi, bos; mae rhywun yn aros i gael ei syrffio ..."

"Trefor!" meddai Ffion. "Ga'i siampên hefyd? Waeth i mi gael potel ddim, mi fydd yn rhatach i ti yn y pen draw ..."

Doedd Ffion byth yn mynd allan. Roedd Ffion yn fodlon gyda photel o win yn ei stafell. Dêd rad; roedd hi'n dda cael un o'r rheiny, ond nid yma, rŵan, ac yn gofyn am botel arall o siampên.

"Ym ... Ffion ... Aimee ... Einir ..."

"Diolch, Alun," a hyrddiodd Ffion ei hun ar y stôl uchel, gan ymaflyd a'i sgert lydan.

Roedd y tair yn un rhes o'i flaen, gyda photel o siampên bob un, yn llwyr wadu unrhyw ymwybyddiaeth o'i gilydd. Roedd Alun yn brysur yn sgleinio gwyclau, heb fod math o angen.

Ar ôl ysbaid o dragwyddoldeb, cododd Einir ei gwydr, a dyma'r ddwy arall yn gwneud yr un peth, a'r tair yn dweud yr un pryd:

"Pen-blwydd hapus i ti'r hen Bero budr!"

Ar amrant, gwawriodd ar Trefor, a lledodd wên dros ei wyneb llyfn:

"Ches i 'rioed dair yr un pryd o'r blaen!"

"Dwi'n meddwl, bos," meddai Alun, "mai wisgi mawr fyddai'n well i chi jest rŵan na siampên."

Mewn tawelwch enbyd, tywalltodd Alun wydriad arall a'i osod o flaen Trefor. Syllodd hwnnw ar y cylch ambr yng ngwaelod y gwydr, gan geisio dyfalu ai gwyrdd yntau coch a ddeuai nesaf.

Cynghrair
Cymunedau
Cymraeg



Mae Cynghrair
Cymunedau Cymraeg
yn falch iawn o gefnogi
Y Stamp

cymunedau.org
twitter.com/cynghrair
facebook.com/cymunedaucymraeg

THEATR DC BARAGAVIS

DIM BYD YNNI
(neu dirgelwch Plas Dolbythwyrdd)

Actorion:
Rhian Blythe
John Glyn Owen
Christine Pritchard
Iwan John
Maldwyn John
Dyfan Roberts

Cyfarwyddo:
Betsan Llwyd

Theatr Fach y Maes:

Nos Sul	06-08-17	7:30
Nos Lun	07-08-17	7:30
Nos Fawrth	08-08-17	7:30
Nos Fercher	09-08-17	7:30

Ffars i'r teulu cyfan gan Emlyn Gomer


Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017

Tocynnau:
0845 409 0800
neu
Wefan yr Eisteddfod

#bc40

BWYSTFILOD

Sioe bypedau i blant



Owain Llyr Edwards
Leisa Mererid
Sgwennu a Cyfarwyddo gan:
Angela Roberts

Efa Dyfan
Carwyn Rhys

Ar y Maes:


Dydd Llun	Pentref Drama	11:00 a 2:00
Dydd Mawrth	Tu allan i Maes D	11:00
	Pentref Llên	2:30
Dydd Mercher	Tu allan i Maes D	11:00
	Pentref Drama	2:00
Dydd Iau	Pentref Drama	11:00 a 4:00
	Pentref Llên	2:30
Dydd Gwener	Pentref Drama	11:00

ADOLYGIADAU

Mae pob adolygiad unigol o gynnyrch newydd Cymraeg yng nghylchgrawn Y STAMP yn ddienw, gyda'r adolygwyr sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn yn cael eu cydnabod ar dop y tudalennau.

CAETH A RHYDD Peredur Lynch

Carreg Gwalch ~ £9.00



Dyma'r tro cyntaf i Peredur Lynch gyhoeddi cyfrol o'i farddoniaeth, ac felly roeddwn yn falch o'r cyfle i gael ymgolli yn y gyfrol *Caeth a Rhydd*, sydd yn cwmpasu ei yrfa gyfan, o'i ddechreuadau yn Ysgol y Berwyn, Y Bala, hyd at y presennol.

Egyr y gyfrol â 'Lloches', dilyniant o gerddi tyner er cof am dad y bardd, y Parch. Evan Lynch, a dyma'r gwaith sy'n serennu, yn sicr. Mae'r canu yma mor onest a diffuant wrth i'r bardd ddod i dermau â'i golled, nad oes dim arall yn dod yn agos ato. Dyma ddyfynnu o 'Yr hyn sy'n aros', ail gerdd y dilyniant:

Yr oedd yma hefyd,
Wrth iddo saernio ei bregethau,
Ryw flas rhwng surni a melystra
Ar daflod ei fyd.

Ac wrth ddod yn ôl i bacio'i lyfrau,
Ar ôl yr holl flynyddoedd
Yr hyn sy'n aros
Yw sawr orennau.

Yn y cerddi hyn mae gan y bardd fwy na dyletswydd i ganu cerddi coffa. Mae barddoni o'r math yma yn ffordd o ddygymod, yn ffordd o gofio; ac mae manylion i'w cael, fel y sawr orenau, sydd ymhell y tu hwnt i'r hyn a geir yn y cerddi coffa i bobl eraill.

Tydw i ddim o'r ffan mwyaf o gyfeiriadaeth lenyddol, neu yn hytrach, *gormod* o gyfeiriadaeth lenyddol. I mi, roedd rhywbeth fel hwn yn ormod o bwddin:

Brynhawn dydd lau protest fawr a fu.

Ymgynullodd myfyrwyr Bangor yn bedwar llw.

Deallaf mai parodio'r Gododdin yw'r nod yma, ac yn hynny o beth, wrth gofio mai Prifysgol Bangor yn yr wythdegau sydd dan sylw, mae'n llwyddiant, am wn i. Ond oherwydd bod y cyfeirio mor amlwg ac mor fynych, ni allaf benderfynu a yw'r awdur yn ysgrifennu o ddirif ai peidio, ac mae hynny'n gwneud y mwynhad yn anodd.

Gair am y diwyg: os am gynnwys gwaith celf hefo cerddi, mae'n rhaid i'r gwaith celf hwnnw dalu am ei le (Ceir enghreifftiau da o hyn yng nghyfrolau Iwan Llwyd, ac yng nghyfrol Aneirin Karadog, *O Annwn i Geltia*, lle mae'r beirdd wedi cydweithio ag artistiaid penodol i greu gwaith yn ymateb yn uniongyrchol i'r cerddi). I mi, nid yw addasiadau cyfrifiadurol digon gwael o ffotograffau wedi eu pas-tio at ei gilydd hefo ambell linell o farddoniaeth wedi eu taflu i fewn *for good measure* yn gwneud dim ond amharu ar y pleser o ddarllen. Pe bai mwy o feddwl wedi mynd i hyn, ni fyddai erchyllbethau megis yr hyn sydd ar dudalen 36 *Caeth a Rhydd* wedi dod i fodolaeth.

Credaf mai'r hyn sydd yn rhaid ei ddeall yn anad dim wrth fynd ati i ddarllen *Caeth a Rhydd* yw mai cerddi personol iawn, ac o bosib amherthnasol neu anodd eu deall i'n gweddill ni ydyn nhw. Cyfrol y mae rhywun yn rhoi ei big ynddi o dro i dro er mwyn darganfod ambell berl, yn hytrach na'i darllen o glawr i glawr ydyw. Y peth yw, mae'r gerdd 'I ddatlu pen-blwydd Mair yn 50 oed', er enghraifft, yn gerdd arbennig iawn i Mair sy'n dal lle anrhydeddus yn ei chalon, ond wyddom ni ddarllenwyr ddim oll am Fair ar wahan i'r pwt o esboniad gan y bardd ar waelod y dudalen,

ADOLYGIADAU

LLŶR TITUS

IESTYN TYNE

GARETH EVANS JONES

MIRIAM ELIN JONES

ac felly mae llai o ystyr i'r geiriau.

Afraid dweud fod y gynghanedd a'r mesurau rhydd fel ei gilydd yn llifo'n gadarn o ddechrau hyd ddiwedd y gyfrol, ac nid oes amheuaeth ein bod yng nghwmni bardd cadarn ei fynegiant a gloyw ei syniadaeth. Ond er yr hir ddisgwyl, siom i mi, beth bynnag, oedd y darllen. Ar wahan i'r dilyniant 'Lloches' a grybwyllais eisioes, a rhai o'r englynion, prin yw'r cerddi yma sydd yn gyffredinol eu hapêl. Mae rhai o'r lleill yn ddisglair wedyn, ac eraill yn disgyn yn fflat. Rhyw brofiad felly oedd hi.

Mae Peredur Lynch yn cyflawni swyddogaeth y bardd cymdeithasol yn wych, ac mae gen i barch ac edmygedd aruthrol at hynny. Wedi'r cyfan, onid y math yma o ganu cymdeithasol yw un o brif swyddogaethau'r beirdd? Fy mhryder yw mai mewn manau cyhoeddus ac wedi eu perfformio yw priod le y cerddi hyn, yn hytrach na rhwng cloriau llyfr, lle mae diffyg cyd-destun yn eu maglu.

Y TŴR Guto Puw

Libretto - Gwyneth Glyn

Seiliedig ar ddrama Gwenlyn Parry

Music Theatre Wales a Theatr Genedlaethol
Cymru

Mai - Mehefin 2017

Caryl Hughes (Benyw)

Gwion Thomas (Gwryw)

Doeddwn i erioed wedi gwyllo opera ar ei hyd o'r blaen, felly, gyda chwilfrydedd a mymryn o chwithdod yr es i ganolfan Pontio i wyllo *Y Tŵr*, cyd-gynhyrchiad rhwng Music Theatre Wales a'r Theatr Genedlaethol, ac addasiad o un o ddramâu enwocaf Gwenlyn Parry.

Andros o fenter oedd ceisio trosi gwaith Gwenlyn i fyd yr opera ond llwyddodd Gwyneth Glyn, y libretydd, yn arbennig o dda yn hyn o beth, ac ategwyd at hynny gan y gerddoriaeth drawiadol, siambr ei harddull, a gyfansoddwyd gan Guto Puw.

Roedd y set a gynlluniwyd gan Michael McCarthy hefyd yn ddiddorol, ond yn wahanol i'r ddrama, nid dringo grisiau oedd cymeriadau'r opera, ond ysgol. Profodd hynny'n effeithiol iawn, yn enwedig wrth iddi ymrannu tua diwedd yr act olaf.

Portread gwirioneddol arbennig o'r Fenyw a gafwyd gan Caryl Hughes. Roedd perfformiad Gwion Thomas yntau'n dda iawn, yn enwedig yn ystod yr act olaf, ond efallai na chafodd gystal hwyl yn actio'r Gwryw ifanc.

Roedd y gynulleidfa yn amlwg wedi mwynhau, gan i'r mwyafrif godi ar eu traed ar y diwedd i gymeradwyo. Roeddwn innau wedi mwynhau, ond dwi dal heb *wirioni* ar opera fel ffurf. Ond gobeithio'n wir y bydd llwyddiant *Y Tŵr* yn arwain at greu rhagor o operâu Cymraeg.

Eich cyfle nesaf i weld 'Y Tŵr':

17 Gorffennaf - Gŵyl Buxton

<http://theatr.cymru/portfolio/y-twr/>

DADENI Ifan Morgan Jones

Y Lolfa ~ £9.99

Bu mawr ddisgwyl am y nofel hon a disgwyliadau mawr hefyd yn bennaf o achos ymgyrch hybu a marchnata ddirugaredd. Y mae heip yn broblem gynyddol, gyffredinol ym myd trydar yn Gymraeg gyda phob llyfr yn wych a phob drama yn un berffaith sy'n gwyrddio disgwyliadau cynulleidfa. Ond dyna ddigon am hynny, y peth pwysig ydi trafod os bu i'r nofel hon gyfiawnhau'r holl sôn amdani.

Mewn gair. Naddo. Ond byddai gadael pethau felly yn anheg achos tydi hi ddim yn nofel wael nac yn un heb ei


ADOLYGIADAU

LLŶR TITUS

IESTYN TYNE

GARETH EVANS JONES

MIRIAM ELIN JONES



rhagoriaethau, ond wrth gwrs tydi hi ddim heb ei brychau. Does dim dadlau nad oes yma awdur â dychymyg; un sydd yn y nofel hon wedi ei ddylanwadu'n amlwg gan Neil Gaiman a'i nofel *American Gods*, ond does dim o'i le ar hynny fel y cyfryw. A does yna'm gwadu fod Ifan Morgan Jones yn ddyn syniadau, a rheiny'n syniadau sy'n tynnu darlennydd i'w lyfrau.

Ond efallai ei fod o'n fwy o ddyn syniadau nac ydi o ddyn sgrifennu yn anffodus. Rhennir y llyfr yn benodau o bersbectif gwahanol gymeriadau a'r rheiny'n plethu drwy'i gilydd. Dyma ddyfais sydd yn gweithio'n dda at ei gilydd er y byddai mwy o ddyfnder cymeriadu yn rhywbeth a fyddai wedi gwneud i'r gwahanol adrannau sefyll ar wahân yn amlycach.

Plethwyd elfennau chwedlonaid, realaidd a gwleidyddol at ei gilydd heb fod y symud rhyngddyn nhw'n tynnu sylw at ei hun ac roedd yr elfennau hudolus yn argyhoeddi fel rhan o'r byd 'go iawn'. Roedd darllen am gymeriadau'r Mabinogi mewn cyd-destun cyfoes yn rhywbeth a oedd yn dod a mwynhad. Fyddwn i ddim yn galw hon yn nofel wleidyddol chwaith, ond yn hytrach ei bod hi'n nofel lle mae gwleidyddiaeth yn cael ei drafod ynddi, gan fod yr elfennau chwedlonol yn cael blaenoriaeth - a diolch am hynny.

Anodd ar brydiau oedd cael fy nhynnu i fyd y llyfr a hynny unwaith eto oherwydd yr arddull. Byddai rhai

nodweddion, cymariaethau'n enwedig yn taro rhywun oddi ar ei echel. Does yna ddim esgus i'r gymhariaeth mor ofnadwy o ystrydebol- fod trwyn rhywun yn goch 'fel tomato' y tu draw i gyfnod llun a stori ysgol gynradd, a drwy'r llyfr mae'r cymariaethau'n gallu bod rhyw fymryn yn ddifflach os nad yn hurt (cymharu breichiau cymeriad i fagiau ailgylchu llawn er enghraifft).

Rhaid canmol y defnydd o dafodiaethau gwahanol yn y nofel, wn i ddim pam nad oes mwy o awduron yn manteisio ar yr amrywiaeth sydd gan Gymru i'w gynnig. Yn anffodus tydi'r ddeialog ddim yn taro deuddeg, nac yn argyhoeddi bob tro. Mae hi'n anystwyth ac anodd ydi credu y byddai pobl o gig a gwaed yn siarad yn y fath fodd.

Mae rhediad y nofel yn gallu bod yn anwastad hefyd, yn aml am fod hiwmor yn tanseilio rhai uchafbwyntiau dramatig. Mae'r hiwmor at ei gilydd yn fwy tebygol o wneud i rywun ochneidio na chwerthin (dad-joke-aidd iawn ydi'r jôcs) ac mae hynny'n biti. Mae hynny, ynghyd ag anghysondebau naratifol (cymeriadau yn clywed cymeriad mud yn tuchan ac yn rhegi er enghraifft) yn tanseilio ar nofel sydd yn ei chraidd o ran ei syniad yn dda.

Wna i ddim gwadu ei bod hi'n werth darllen y nofel hon. Mae yna syniadau, y dychymyg, a'r gallu i ddweud rhywbeth am y Gymru sydd ohoni yn y nofel hon a hynny mewn genre y mae prinder ohono. Mae yna nofel dda yn *Dadeni*; dim ond ei bod hi ddim yn cael cyfle i ddisgleirio fel y gallai yn anffodus.

DŴR YN YR AFON Heiddwen Tomos

Gomer ~ £7.99

Nofel wledig yw *Dŵr yn yr Afon*, ac mae'r cerrig, pob un y tybiech eu bod yn gadarn yn eu lle, yn slic ac yn eich gwthio i'r dyfnderoedd. Ymdrinia'r nofel hon â themâu tywyll – colled, iselder, camdrin domestig a theulu ar chwâl – a hynny mewn tafodiaith afeithus sydd eisoes wedi plasio'i


ADOLYGIADAU

LLŶR TITUS

IESTYN TYNE

GARETH EVANS JONES

MIRIAM ELIN JONES



darllenwyr.

Er bod gan Heiddwen Tomos ddawn wrth gymeriadu, roedd yna ormod ohonynt. Er i hiwmor diniwed Ned y gwas a'i garwriaeth gyda Nerys Myfanwy sticio yn y cof, roedd e'n taro'n od rhwng y golygfeydd tywyllach. Gwibia'r

awdures o un pegwn emosiynol i'r llall, heb fan canol.

Ar y pegwn eithaf, roedd pytiau o ddyddiaduron Rosa – gan weld ei galar yn ei meddiannu'n araf bach – yn

pontio ysbrydion y gorffennol a digwyddiadau'r presennol yn effeithiol ac yn deimladwy. Roedd perthynas tadol Morgan gyda Han, ei ferch yng nghyfraith, hefyd yn drawiadol.

Amhosib yw peidio â chymharu gwaith Heiddwen Tomos gyda gwaith Caryl Lewis; ond teimlaf bod rhychwant y profiad gwledig yn ehangach yma. Manylion bach – megis hen ddyn yn methu chargo'i ffon symudol a Rhys ar ei lpad ger y Rayburn – sy'n lliwio'r llun.

Gobeithiaf weld yr awdures yn mentro eto i ddarlunio'r byd gwledig sydd yn amlwg mor gyfarwydd iddi, ond gan ganolbwyntio ar y lleddf *neu'r* llon, yn hytrach na chymysgedd o'r ddau.

👉 ADOLYGWYR! 👈

Mae'r **STAMP** eich angen chi!

dramâu / nofelau / cyfrolau barddoniaeth / cerddoriaeth / celf
Awydd dweud eich barn yn ddi-flewyn ar dafod am gynnyrch newydd
Cymraeg? Cysylltwch â ni!



@CywionCranogwen



Awst & Walther: Tu Hwnt, 2014 (Barclodiad-y-Gawres)



Awst & Walther: Ground to Sky, 2014 (PSM, Berlin)

MANON AWST ADNABOD YR ARTIST

Mwy am yr artist sy'n gyfrifol am y gwaith celf trawiadol ar ein clawr...

Artist ac ymchwilydd ydy Manon Awst. Yn wreiddiol o Fôn, astudiodd Bensaerniaeth yng Ngholeg Emmanuel, Prifysgol Caergrawnt ac astudiaethau *Artistic Research* yn y Coleg Celf Brenhinol yn Llundain.

Bu hi'n byw yn ninas Berlin rhwng 2008 - 2015 gan gyd-weithio â'r artist Benjamin Walther ar brosiectau celf rhyngwladol. Arddangoswyd eu gwaith mewn amguedd-feydd ac orielau ledled Ewrop gan gynnwys Llysgenhadaeth Yr Almaen yn Llundain, Yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, y *KW Institute for Contemporary Art* yn Berlin a'r 5ed Biennale Celf yn Moscow. Mae eu cerflun 'Tu Hwnt' wedi ei osod yn barhaol yn Nant Gwrtheyrn ac mae eu gwaith yn ran o gasgliad celf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn 2015 derbyniodd Manon Wobr Cymru Greadigol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a sefydlodd ei stiwdio yng Nghaernarfon. Mae hi bellach yn fyfyrwraig PhD yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor ac eleni fe'i comisiynwyd i greu arddangosfa arbennig ar gyfer Y Lle Celf yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.

Ffocws ei gwaith creadigol yw archwilio'r berthynas rhwng pobl a'u hamgylchedd. Mae'n creu gosodiadau a chomisiynau safle-penodol, ac yn mwynhau braslunio a (bellach) cynganeddu! *

** (gallwch weld cwpledi caeth o waith Manon i gydfynd â'r gwaith celf o droi i dudalen 9)*



Y STAMPWYR

Efa Lois*@EfaLois // rhith.tumblr.com*

Yr artist sydd, ar y cyd â'r bardd Morgan Owen, yn rhedeg prosiect Rhithganfyddiad, sy'n cofnodi pensaerniaeth Caerdydd yn weledol a thrwy eiriau. Enillydd ysgoloriaeth pensaerniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2016.

Manon Awst*@manonawst // awst-walther.com*

(gweler gyferbyn)

Eurig Salisbury*@eurig // eurig.cymru*

Bardd, llenor a darlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth. Enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2016 am ei nofel gyntaf, *Cai*.

Manon Steffan Ros*@ManonSteffanRos*

Awdures doreithiog ym myd llyfrau plant, pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd. Enillydd Gwobr Tir Na n-Og deirgwaith, yn fwyaf diweddar eleni, gyda *Pluen*, nofel i rai yn eu harddegau.

Alek Bednarski*alekbednarski.com*

Brodor o Lublin, Gwlad Pwyl. Addysgwyd ym Mhrifysgol Gatholig Ioan Pawl II Lublin, ac mae'n ddarlennydd yn y Gyfadran Geltaidd yno. Cyhoeddodd gyfrol am waith Niall Griffiths, nifer o erthyglau academaidd am ffuglen Gymraeg, ac un nofel, „Onde estas?” Mae'n darlunio a chreu cartwnau yn ei amser sbâr, ac yn byw gyda'i deulu yn Lublin.

Rhodri ap Dyfrig*@Nwdls*

Cymruddyfodolwr, cyd-drefnydd gŵyl ddyfodoliaeth Diwrnod yng Nghymru Fydd a heliwr cynnwys Twitter / Tumblr @cymruddyfodol. Ceisio darganfod ffyrdd i ddychmygu Cymru'r dyfodol i fodolaeth yn y rwan hyn.

Matthew Tucker*@kerrithtucker*

Bardd a chanwr o Abertawe, bellach yn astudio cwrs gradd yn y brifysgol yno. Cipiodd ei gadair gyntaf yn yr Hendy fis Mai, a daeth yn agos i'r brig yng nghystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhenybont eleni.

Llio Mai*@LlioMai*

Daw'n wreiddiol o Fryngwrn, Ynys Môn, ond mae hi bellach yn byw yng Nghyffordd Llandudno. Wedi graddio mewn Cymraeg o Brifysgol Bangor, a derbyn MA mewn Ysgrifennu Creadigol, mae hi bellach yn fyfyrwraig PhD ym Mangor yn astudio agweddau ar theatr Gymraeg rhwng 1945 a 1979, tra'n parhau i ysgrifennu ambell ddarn creadigol pan fydd ganddi'r amser sbar.

Sara Borda Green*@bordagreen*

Cafodd ei magu yn Nhrevelin, wrth droed yr Andes. Yn ddeunaw oed symudodd i Buenos Aires i wneud gradd mewn Astudiaethau Cyfryngau ac i weithio ym myd cyfryngau digidol ac addysg. Ar hyn o bryd mae hi'n dilyn cwrs MA ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gwilym Bowen Rhys

Cerddor Cymraeg amlwg fel aelod o Plu a Bendith, a chyn-aelod o'r Bandana. Rhyddhaodd ei albwm unigol cyntaf o gerddoriaeth werin, *O Groth y Ddaear* yn 2016. Diddordeb mawr mewn hanes, yn arbennig hanes cerddoriaeth werin Gymraeg.

Mared Llywelyn

@maredllywelyn

Hogan o Forfa Nefyn, Llŷn yw Mared. Mae hi'n gweithio yn Llyfrgell Nefyn a Neuadd Dwyfor. Sgwennu, actio a chiniawa yw ei phrif ddiddordebau. Enillodd Fedal Ddrama Eisteddfod yr Urdd ym Mhenybont eleni.

Rhys Trimble

@rhystrimble // trimbling.com

Bardd a pherfformiwr dwyieithog sy'n byw ym Methesda. Golygydd cylchgrawn ctrl+alt+del. Diddordeb mewn Cymraeg canoloesol, cerddoriaeth, celf ddigidol a dulliau ysgrifennu avant garde.

Gareth Evans Jones

@GEvansJones

Dramodydd ac awdur yn ei flwyddyn olaf yn astudio PhD ym Mhrifysgol Bangor. Enillydd Coron Eisteddfod Môn Bro Paradydd 2016 am gasgliad o ryddiaith greadigol.

Ruth Richards

Awdres o Gemaes, Môn sydd bellach yn byw ym Miwmares. Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf, *Pantywennol*, gan Y Lolfa eleni.

Miriam Elin Jones

@miriamelin23 // miriamelinjones.cymru

Llenor a myfyriwr PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth.

Grug Muse

@Elan_Grug

Bardd, beiciwr, blogiwr. Myfyriwr ymchwil yn adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf o gerddi, *Ar Ddisberod*, eleni.


Iestyn Tyne

@iestyn_tyne

Llenor, cerddor a myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Enillydd Coron Eisteddfod yr Urdd a chadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru 2016. Cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf o gerddi, *addunedau*, eleni.

Llŷr Titus

Awdur a dramodydd sydd wrthi yn astudio PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Enillodd *Gwalia*, ei nofel ffug wyd-donol i blant wobwr Tir Na n-Og yn 2016.



Parnassus Book Service, Inc

Sefydlwyd ers 1957

Ewch i chwilio yn ein catalog ar lein o dros 5000 o gyfrolau, gan gynnwys casgliadau arbennigol ar Lenyddiaeth, Bywgraffiad a Barddoniaeth, Cape Cod a New England, Edward Gorey, Hanes Morwrol a Llyngesol, Mecsico ac America Ladin, Celf a Phesaerniaeth, Hynafiaethol, a llyfryddol, Rwsia ac Asia.



Chwiliwch ein catalog ar-lein at <http://www.parnassusbooks.com>
Ymwelwch â ni ar Facebook: <https://www.facebook.com/parnassusbookservice/>
Ffôn +01 508 362 6420


O'r Pedwar Gwynt



**TANYSGRIFIAD BLWYDDYN
AM GYN LLEIED Â £10**

pedwargwynt.cymru


Cyhoeddiadau **Barddas**



£5.95



£8.95



£8.95



barddas.com




CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Hoffech chi weld eich hysbyseb
chi yn y rhifyn nesaf?


Cysylltwch:

golygyddion.ystamp@gmail.com

#LlyfrauDrosGymru




£9.99



£8.99



£7.99



£9.99



£7.99



www.thionon.co.uk

addunedau

Cyrol newydd o farddoniaeth
Iestyn Tyne



"Mae'r prydfferth a'r
dyrchafol yn ei lyfr
newydd... ond does
dim hunan dwyll
ynglŷn â nhw pan
maen nhw'n
ymddangos..."

Alun Jones

addunedau.weebly.com

£5

Gwybodaeth am holl lyfrau'r wasg ar
www.ylolf.com

Dilynwch ni!



Y Lolfa



£4.00

Argraffwyd gan Argraffwyr Cambrian